



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Ysbyty Ifan  
Ysbyty Ifan  
Betws Y Coed  
Conwy  
LL24 0NY**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/08/2017

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Ysbyty Ifan ger Betws y Coed yng Nghonwy. Mae'n gwasanaethu'r pentref ei hun, a'r ardal wledig o gwmpas. Mae'n un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru dan reolaeth wirfoddol. Cymraeg yw prif iaith yr ysgol. Mae 19 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr yn cynnwys pedwar o oed meithrin. Mae niferoedd disgyblion wedi gostwng yn raddol ers yr arolygiad diwethaf. Dau ddsbarth oed cymysg sydd yn yr ysgol.

Nid oes unrhyw ddisgybl yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r canran cenedlaethol (19%). Tua 90% o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref. Nid oes disgybl o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 25% fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Ychydig iawn ohonynt sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cychwynnodd y pennaeth dros dro yn ei swydd ym mis Ebrill 2015. Mae hefyd yn bennaeth ar Ysgol Llanddoged. Cychwynnodd y pennaeth safle, sydd â chyfrifoldebau rheolaethol yn Ysgol Ysbyty Ifan, yn ei swydd ym mis Medi 2016. Arolygwyd Ysgol Ysbyty Ifan ddiwethaf ym mis Chwefror 2012.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Ysbyty Ifan yn 2016 - 2017 yw £7,663. Yr uchafswm ar gyfer disgybl mewn ysgolion cynradd yng Nghonwy yw £14,063 a'r lleiafswm yw £3,225. Mae Ysgol Gynradd Ysbyty Ifan yn y chweched safle o'r 55 ysgol gynradd yng Nghonwy o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda
- medrau llafar Cymraeg bron bob un o'r disgyblion yn gadarn a'u bod yn dewis defnyddio'r iaith i gymdeithasu amser chwarae yn ogystal ag yn eu gwersi
- disgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm
- ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn dda iawn a'u bod yn dangos agweddau cadarnhaol at eu gwaith
- yr athrawon yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu diddorol i'r disgyblion, sydd â phwyslais amlwg ar sicrhau bod ganddynt ymwybyddiaeth dda o hanes a diwylliant yr ardal leol
- perthynas waith dda yn bodoli rhwng staff a disgyblion ym mhob dosbarth, sy'n creu ethos cynhwysol a chartrefol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir a phwrpasol a'i fod wedi cyfleu'r weledigaeth honno yn llwyddiannus i'r staff, rhieni a llywodraethwyr
- y staff yn cydweithio'n effeithiol fel tîm ac yn gweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion eraill
- y corff llywodraethol yn wybodus, yn gefnogol ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol
- gan yr ysgol ystod eang o weithgareddau hunanarfarnu addas sy'n sicrhau bod gan arweinwyr ddealltwriaeth gywir o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen iddi eu gwella
- partneriaethau llwyddiannus yn bodoli gyda rhieni, y gymuned leol a sefydliadau eraill, sy'n hyrwyddo Cymreictod a medrau cymdeithasol y disgyblion yn llwyddiannus

## Argymhellion

- A1 Parhau i godi safonau llafar Saesneg yng nghyfnod allweddol 2
- A2 Sicrhau bod medrau rhifedd a TGCh yn cael eu cynllunio'n fwriadus ar draws y cwricwlwm
- A3 Sicrhau bod arferion gorau asesu ar gyfer dysgu yn cael eu gweithredu'n gyson
- A4 Sicrhau cyfleoedd priodol i arweinwyr ddatblygu eu rolau arweinyddol ymhellach
- A5 Mireinio'r gweithgareddau monitro i arfarnu'n fwy trylwyr effaith darpariaeth yr ysgol ar safonau disgyblion

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol â medrau llythrennedd a rhifedd tebyg i'r rheini a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda.

Ar draws yr ysgol, mae bron bob un o'r disgyblion yn datblygu i gyfathrebu'n hyderus ar lafar gan ddefnyddio ystod gynyddol o eirfa a chystrawen gywir. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt iaith naturiol a chyfoethog yn y Gymraeg. Maent yn dangos balchder at yr iaith ac yn dewis ei defnyddio i gymdeithasu amser chwarae yn ogystal ag yn eu gwersi. Er hynny, ar frig yr ysgol, lleiafrif o'r disgyblion sy'n hyderus wrth gyfathrebu yn Saesneg wrth drafod eu gwaith.

Mae holl ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu darllen. Maent yn mwynhau darllen ar goedd yn rhugl, gyda mynegiant a goslef dda. Maent yn trafod cynnwys eu llyfrau a chymeriadau'n hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron bob disgybl yn darllen yn gywir a hyderus. Maent yn trafod yr hyn a ddarllenwyd yn ddeallus. Maent yn defnyddio eu medrau darllen yn effeithiol i gefnogi eu gwaith mewn pynciau eraill, er enghraifft wrth iddynt gywain tystiolaeth am drychineb y Titanic. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn cymhwyso eu medrau darllen Saesneg yn briodol, er enghraifft wrth drafod cynnwys llyfr ffeithiol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau ysgrifennu Cymraeg. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu darnau annibynnol mewn amrywiaeth o destunau, gan amrywio brawddegau ac atalnodi eu gwaith yn gyson, er enghraifft wrth ysgrifennu am Cledwyn y Cawr. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron bob disgybl yn ysgrifennu darnau estynedig diddorol mewn amrywiaeth o gyweiriau i wahanol bwrpasau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu am y Pasg. Maent yn dangos ymwybyddiaeth dda o atalnodi, paragraffu a hanfodion iaith. Mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n briodol yn Saesneg i wahanol ddibenion, er enghraifft wrth ysgrifennu dadl o blaid ac yn erbyn hela llwynogod. Fodd bynnag, nid yw llawysgrifen a chyflwyniad mwyafrif y disgyblion bob amser yn daclus.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth yn fedrus i ddatrys problemau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio ystod o fedrau rhif a mesur yn hyderus, er enghraifft wrth brynu gwahanol fwydydd yn y caffi Eidalaid neu wrth fesur gwahanol rannau o'r corff. Maent yn casglu data a'i gymhwyso yn effeithiol, er enghraifft wrth greu graff o liwiau llygaid plant y dosbarth. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o ddulliau ar gyfer datrys problemau, er enghraifft wrth gyfrifo pris teithio i Eisteddfod yr Urdd, neu wrth ddarganfod cost

adeiladu ffens newydd ar y fferm. Maent yn archwilio cronfeydd data, er enghraifft wrth gofnodi tymheredd dros gyfnod. Fodd bynnag, ychydig o'r disgyblion mwy galluog sy'n cyflawni tasgau ymestynnol ar lefelau sy'n uwch na'r disgwyl, a chyfyng yw defnydd disgyblion o rifedd mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol mewn meysydd dysgu, ac ar draws y cwricwlwm. Maent yn defnyddio pecynnau TGCh i wneud cyflwyniadau da o'u gwaith, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 2 gyfuno llun a thestun i greu llyfryn am anifeiliaid fferm. Maent yn mewnbynnu gwybodaeth i fas data syml wrth gofnodi hoff ffrwythau plant y dosbarth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau yn hyderus, er enghraifft wrth gyflwyno eu gwaith wedi ymweliad â'r arfordir yn Harlech. Mae ganddynt wybodaeth gadarn am e-ddiogelwch ac maent yn defnyddio'r rhyngwrdd yn ddiogel ac yn effeithiol i chwilio am ffeithiau, er enghraifft wrth gyflwyno gwybodaeth am adar sydd i'w gweld ar fferm yng Nghwm Idwal. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ennill dealltwriaeth gymwys o sut i fwydo bas data i greu graffiau a siartiau, er enghraifft wrth gymharu hyd cysgod dros gyfnod. Fodd bynnag, ychydig iawn sy'n datblygu dealltwriaeth dda o sut i drin data neu greu taenlenni i fodelu sefyllfaoedd byd go iawn.

Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion (deg neu lai) yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnodi'r ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol ar y deilliant disgwyliedig a'r deilliant uwch wedi amrywio o gymharu ag ysgolion tebyg ac nid oes patrwm cyffredinol.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar y lefel uwch, mae perfformiad disgyblion yn amrywio ond yn tueddu i osod yr ysgol yn y 50% uwch heblaw yn y Saesneg.

Am fod nifer y disgyblion mor fach, nid yw cymariaethau perfformiad bechgyn a merched yn ddibynadwy.

### **Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o'r effaith mae hyn yn ei chael ar y corff. Mae'r disgyblion yn teimlo'n gwbl ddiogel yn yr ysgol ac yn hapus i drafod problemau gydag aelodau staff, gan fod yn hyderus eu bod yn gwrando arnynt.

Mae ymddygiad bron bob un o'r disgyblion yn dda iawn ac maent yn gwrtais a chroesawgar tuag at ymwelwyr. Maent yn cyflawni'n dda yn eu datblygiad personol a chymdeithasol. Mae'r disgyblion yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn dangos parch at

eraill mewn gwersi ac yn ystod amser chwarae. Mae bron pob un yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith, yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig. Fodd bynnag, dechrau datblygu mae medrau disgyblion i wella eu dysgu eu hunain ac anghyson yw gallu disgyblion i arwain eu dysgu eu hunain.

Mae llais y disgybl yn bwysig ac yn cael lle amlwg drwy fentrau amrywiol, er enghraifft wrth i'r cyngor ysgol drefnu gweithgareddau codi arian at nifer o elusennau. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill. Mae disgyblion yn cyfrannu'n helaeth yn y gymuned ac yn cymryd rhan flaenllaw mewn digwyddiadau cymdeithasol yn lleol drwy gynnal cyngherddau a chystadlu mewn eisteddfodau. Maent yn cyfrannu'n helaeth at bapur bro Nant Conwy, 'Yr Odyn', sy'n datblygu a chyfoethogi eu medrau llythrennedd yn dda yn ogystal â datblygu ymdeimlad o falchder yn eu cymuned.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi gosod yr ysgol ymhlith y 50% uwch o ysgolion tebyg mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Mae bron bob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth o brofiadau dysgu cyfoethog ac ysgogol sydd yn cynnal diddordeb y disgyblion yn effeithiol. Mae'r athrawon yn cynllunio'r cwricwlwm yn thematig ac yn fwriadus er mwyn sicrhau bod y profiadau dysgu yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Darperir profiadau diddorol i hyrwyddo'r dysgu yn y Cyfnod Sylfaen, ac mae'r ddarpariaeth allanol yn ysgogol a dychmygus. Darperir ystod o ymweliadau amrywiol â manau diddorol o fewn yr ardal, er enghraifft Tŷ Mawr, Yr Wybrnant. Mae hyn yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn effeithiol.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi addasu'r drefn gynllunio er mwyn sicrhau gwell cysondeb wrth gyflwyno egwyddorion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig ar draws ystod o bynciau ac, o ganlyniad, gwnânt gynnydd da. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio i ddatblygu holl fedrau rhifedd na TGCh y disgyblion ar draws y cwricwlwm wedi datblygu'n llawn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r pwyslais cyson ac effeithiol ar sicrhau ansawdd uchel iaith lafar gan y disgyblion yn nodwedd gref ac fe gaiff hyn ei adlewyrchu o fewn y dosbarthiadau ac ar y buarth. Mae'r athrawon yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau gwerthfawr, gan gynnwys ymweliadau addysgol, defnydd o'r ardal leol ac o arlunwyr ac artistiaid Cymru er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o hanes a thraddodiadau lleol a diwylliant Cymru. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ymdeimlad o falchder ymhlith disgyblion tuag at eu hiaith, eu gwlad a'u diwylliant.

Mae'r ysgol yn cynnig profiadau diddorol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o gynaliadwyedd. Enghraifft dda o hyn yw'r prosiect 'Hydro' sy'n darparu profiadau diddorol ac ysgogol i ehangu gwybodaeth y disgyblion am arbed ynni. O ganlyniad,



mae dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion o ofalu am yr amgylchfyd yn gadarn. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol. Er enghraifft, drwy astudio gwledydd tramor, a'r ffordd o fyw ynddynt a phwysigrwydd Masnach Deg, mae dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliannau eraill yn datblygu'n dda.

### **Addysgu: Da**

Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn arwain sesiynau dysgu effeithiol a diddorol sy'n cymhell disgyblion i ddysgu. Mae perthynas waith effeithiol iawn yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch dysgu llwyddiannus. Mae athrawon yn cysylltu eu gwersi'n glir â dysgu blaenorol ac yn defnyddio ystod o ddulliau'n fedrus. Maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir ac yn sicrhau cyflymder da i'r sesiynau. Mae'r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llafar. Maent yn holi'r disgyblion yn effeithiol mewn dull sy'n eu hannog i roi atebion estynedig. Mae cymorthyddion yn cyfrannu'n effeithiol at ansawdd yr addysgu ac yn cynnig cymorth da yn ôl anghenion disgyblion er mwyn iddynt gwblhau eu tasgau'n llwyddiannus.

Mae'r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o fwriadau dysgu'r gwersi ac maent yn cynnig adborth gwerthfawr iddynt yn amserol. Mae gwaith disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd, a gan amlaf, mae sylwadau'r athrawon yn cynnig arweiniad iddynt ar sut i wella'r gwaith. Er hyn, nid yw arferion gorau asesu ar gyfer dysgu'n cael eu gweithredu'n ddigon cyson ar draws yr ysgol. Anghyson yw'r cyfleoedd a roddir i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 fyfyrion ar eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau clir ar gyfer cofnodi cynnydd disgyblion. Mae'r athrawon yn defnyddio canlyniadau asesiadau yn effeithiol i drefnu cymorth ychwanegol i ddisgyblion penodol, sy'n cyfrannu'n dda at wella safonau, er enghraifft medrau llafar a darllen Saesneg disgyblion cyfnod allweddol 2.

Mae'r rhieni'n derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ac mae adroddiadau blynyddol yn bodloni'r gofynion.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus. Mae trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae manteision byw yn iach a hybu iechyd corfforol disgyblion yn cael eu hyrwyddo'n effeithiol ar draws y cwricwlwm. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrion a datblygu eu hagweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae cyfnodau cyd-addoli ysgogol yn creu ethos Cristnogol ac yn cyfrannu'n effeithiol iawn i'r agwedd hon. Golyga hyn fod y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at eraill. Mae gweithdrefnau llwyddiannus i hybu ymddygiad cadarnhaol ac i hybu presenoldeb cyson. Caiff y disgyblion gyfle i fod yn rhan weithredol o'r gymuned leol ac i fagu agwedd ofalgar at ei gilydd ac at eraill trwy weithgareddau elusennol a diwylliannol. Mae hyn yn cael ei amlygu'n glir yn y ffordd maent yn ymdrin â'i gilydd.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag ystod o asiantaethau allanol, fel seicolegydd, therapyddion iaith, lleferydd a galwedigaethol a gwasanaeth cefnogi ymddygiad. Mae hyn yn sicrhau cefnogaeth werthfawr ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae aelod o'r heddlu yn ymweld yn gyson i annog y disgyblion i gadw'n ddiogel, er enghraifft ar y we. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r athrawon yn adnabod anghenion dysgu'r disgyblion yn gynnar ac yn darparu cefnogaeth bwrpasol ar eu cyfer. Mae'r athrawon yn olrhain cynnydd y disgyblion hyn yn fedrus i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da. Mae targedau clir a chyraeddadwy yn cael eu nodi yn y cynlluniau addysg unigol ac mae'r rhieni a'r disgyblion yn cael eu cynnwys yn y broses o'u llunio a'u hadolygu.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chartrefol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel. Mae polisiâu'r ysgol yn hybu cydraddoldeb a mynediad cyfartal i'r ddarpariaeth yn effeithiol. Mae'r ysgol yn annog parch, gofal a goddefgarwch rhwng oedolion a disgyblion a rhwng disgyblion â'i gilydd yn llwyddiannus ac yn talu sylw i gyfraniad pob unigolyn a'i safbwyntiau.

Mae'r safle a'r adeilad yn cael eu cynnal a'u cadw'n lân a thaclus ac yn darparu amgylchedd diogel ar gyfer y disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio adnoddau a thir yr ysgol yn effeithiol i annog disgyblion i gadw'n iach a gwerthfawrogi'r amgylchedd o'u cwmpas. Gwneir defnydd da o neuadd a chae chwarae yn y pentref, yn ogystal ag adnoddau ysgol gyfagos, i ehangu profiadau'r plant yn effeithiol. Gwneir defnydd pwrpasol o'r ardal allanol ysgogol ar gyfer hyrwyddo egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Er enghraifft, mae'r 'Caffi Eidalaid' a'r 'jwngl' yn ehangu profiadau dysgu'r disgyblion yn effeithiol. Mae amrywiaeth o arddangosfeydd chwaethus o weithgareddau a gwaith disgyblion ar waliau'r ystafelloedd yn rhoi bri ar eu cyflwyniadau ac yn ychwanegu at ethos cartrefol a chroesawgar yr ysgol.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth wedi rhannu gweledigaeth glir a phwrpasol ar gyfer datblygu'r ysgol gyda'r staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni. Mae'r weledigaeth yn seiliedig ar greu ethos bugeiliol cadarn sy'n hyrwyddo safonau uchel, lles a hapusrwydd disgyblion ac ymglymiad cryf i'r gymuned Gymreig y mae'r ysgol yn rhan ohoni. Caiff gefnogaeth dda gan y pennaeth safle.

Mae'r pennaeth wedi rhoi nifer o strategaethau cadarn ar waith ac wedi llwyddo i greu ethos o gydweithio fel tîm ymysg staff. Mae gan bob aelod o staff swydd ddisgrifiad perthnasol ac maent yn ymgymryd â'u rolau yn gydwybodol. Yn ddiweddar, mae'r pennaeth wedi ailstrwythuro cyfrifoldebau arweinyddol. Mae hyn eisoes wedi arwain at sicrhau gwell cysondeb yn y drefn monitro ac arsylwi. Fodd bynnag, mae'n rhy fuan i fesur yn llawn effaith hyn ar safonau gwaith disgyblion a gweithdrefnau'r ysgol.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn cynnig cyfleoedd effeithiol i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff. Enghraifft dda o hyn yw'r modd y mae athrawon yn cael cyfleoedd i ymweld ag ysgolion eraill i weld arfer dda. Mae'r ysgol yn bodloni llawer o flaenoriaethau cenedlaethol yn llwyddiannus. Un o gryfderau'r ysgol yw'r ffocws cryf a roddir ar ddarparu amrywiaeth o brofiadau ysgogol ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn dangos gwerthfawrogiad o ddiwylliant Cymru ac yn siarad Cymraeg graenus o gwmpas yr ysgol. Mae'r gwaith ar ddatblygu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn datblygu'n addas.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn wybodus, yn gefnogol ac yn ymgymryd â'u dyletswyddau strategol yn gydwybodol. Er enghraifft, maent wedi sicrhau gwell darpariaeth a chysylltiad dibynadwy i'r we ar gyfer yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o safonau a sut mae'r ysgol yn perfformio o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Maent yn defnyddio ystod eang o wybodaeth er mwyn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella. Er enghraifft, maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i gynnal teithiau dysgu, craffu ar waith disgyblion a thrafod blaenoriaethau gydag aelodau o staff. O ganlyniad, mae ganddynt ymwybyddiaeth werthfawr o gryfderau'r ysgol a meysydd ar gyfer gwelliant. Maent yn defnyddio'r wybodaeth yn llwyddiannus er mwyn herio'r ysgol ac i ddatblygu eu rôl fel ffrind beirniadol yn dda.

### **Gwella ansawdd: Da**

Mae'r pennaeth wedi sefydlu ystod eang o weithgareddau hunanarfarnu addas sy'n sicrhau bod gan arweinwyr ddealltwriaeth gywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae hyn yn cynnwys trefniadau priodol i fonitro safon yr addysgu a'r dysgu trwy arsylwi ar wersi a chraffu ar waith disgyblion. Un o gryfderau'r broses yw'r cydweithio agos rhwng yr arweinwyr llythrennedd a rhifedd ac aelodau o'r corff llywodraethol wrth graffu ar waith disgyblion. Mae hyn yn galluogi llywodraethwyr i gyfrannu'n effeithiol at y broses o hunanarfarnu ac adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella yn y ddarpariaeth. Er hyn, nid yw'r gweithgareddau monitro yn arfarnu'n ddigon trylwyr effaith darpariaeth yr ysgol ar y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni neu'r cynnydd a wnânt. Mae'r ysgol yn canfod barn rhieni a disgyblion yn effeithiol. Mae hyn wedi arwain at newid trefniadau teithio ar gais y gymdeithas rieni ac ehangu'r ddarpariaeth allgyrsiol ar gyfer chwaraeon ar gais y disgyblion.

Mae'r ddogfen hunanarfarnu wedi'i seilio ar ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys dadansoddiad manwl o ddata perfformiad. Mae'r adroddiad, er braidd yn ddisgrifiadol mewn manau, yn nodi cryfderau'r ysgol yn dda ac yn gyffredinol yn nodi'r meysydd ar gyfer gwelliant yn addas.

Mae cyswllt priodol rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n glir ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae'n cynnwys nifer rhesymol o dargedau gwella ynghyd â chyfrifoldebau, costau a meini prawf llwyddiant priodol. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn adolygu'r targedau yn drwyadl yn rheolaidd. Er hynny, nid yw'r meini prawf llwyddiant yn ddigon meintiol bob tro er mwyn mesur y cynnydd yn ddigon penodol.

## **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau strategol gwerthfawr, sy'n cyfrannu'n effeithiol at godi safonau a lles y disgyblion.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus iawn gyda rhieni. Mae ffocws y pennaeth ar hybu diwylliant agored a chydweithredol yn llwyddo i sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth gref y rhieni. Mae'r athrawon yn trosglwyddo gwybodaeth reolaidd i rieni am wahanol agweddau o waith yr ysgol ac yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt drafod cynnydd eu plant. Mae hyn yn eu galluogi i gefnogi dysgu eu plant yn llwyddiannus. Mae'r gymdeithas rhieni yn weithgar ac yn codi symiau sylweddol o arian yn flynyddol i gynorthwyo'r ysgol i brynu adnoddau ychwanegol er budd y disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw'r buddsoddiad diweddar mewn offer TGCh.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag ysgolion lleol er mwyn cyfoethogi profiadau'r disgyblion, er enghraifft wrth sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion gydweithio ar agweddau penodol o'r cwricwlwm, fel y cyfle i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ymuno â disgyblion ysgol leol i ddatblygu eu medrau llythrennedd Saesneg. Mae'r bartneriaeth hefyd yn galluogi disgyblion y Cyfnod Sylfaen i fanteisio ar a defnyddio'r neuadd yno i hyrwyddo datblygiad corfforol. Mae cydweithio llwyddiannus iawn yn bodoli rhwng athrawon Ysbyty Ifan a Llanddoged i rannu arbenigedd athrawon. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y cynllunio ar gyfer gwella.

Mae cysylltiadau gwerthfawr yn bodoli gyda'r cylch meithrin sy'n cwrdd yn yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau defnydd da o adnoddau ac yn sicrhau bod disgyblion newydd yn ymgartrefu'n gyflym wrth gychwyn yn yr ysgol. Mae athrawon yn cydweithio'n effeithiol gydag ysgolion lleol a'r ysgol uwchradd i safoni a chymedroli gwaith disgyblion. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar weithdrefnau ysgol er mwyn sicrhau bod cysondeb wrth lefelu cyrhaeddiad disgyblion ar ddiwedd y cyfnodau allweddol. Mae'r trefniadau trosglwyddo gyda'r ysgol uwchradd yn gadarn gan helpu disgyblion i ymgartrefu'n gyflym wrth symud i'r ysgol uwchradd.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o asiantaethau arbenigol a gwasanaethau cefnogi amrywiol yr awdurdod lleol er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion a'r teuluoedd sydd ei hangen.

Mae cysylltiadau niferus â'r gymuned leol ac mae hyn yn cael dylanwad helaeth ar brofiadau dysgu'r disgyblion. Nodwedd arbennig yw'r cydweithio arloesol gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Menter Iaith Conwy ar y prosiect Hydro fydd yn creu trydan ar gyfer yr ysgol. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth dda iawn am ynni adnewyddol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus â'r cyngor cymuned, er enghraifft wrth blannu coed afalau yn y pentref. Daw nifer o wirfoddolwyr o'r ardal i gyfrannu at wahanol weithgareddau, er enghraifft drwy hyfforddi grwpiau o ddisgyblion i gymryd rhan mewn cyngherddau ac i gystadlu'n llwyddiannus mewn eisteddfodau. Mae hyn yn arwain at werthfawrogiad a balchder disgyblion yn eu cymuned.

## **Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau yn effeithiol i gefnogi a gwella dysgu. Mae nifer briodol o athrawon cymwys a chymorthyddion sy'n cydweithio'n dda i gyflwyno

cwricwlwm diddorol. Mae'r pennaeth wedi lleoli staff yn effeithiol wrth ystyried eu cryfderau. Maent yn derbyn cefnogaeth reolaidd drwy drefniadau datblygiad proffesiynol cadarn sy'n dylanwadu'n llwyddiannus ar ansawdd yr addysgu a chyflawniad disgyblion.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag ysgolion eraill i rannu profiadau ac arfer dda. Mae'r cydweithio agos hefyd yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gydweithio gyda disgyblion o'r un oed yn ogystal ac i gydchwarae mewn cystadlaethau chwaraeon. Mae'r trefniadau ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu yn bodloni gofynion statudol ac mae staff yn defnyddio'r amser yn effeithiol i gynllunio'n bwrpasol.

Mae gan yr ysgol ystod dda o adnoddau ac fe ddefnyddir hwy yn effeithiol i gefnogi'r dysgu. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn elwa'n fawr o'r amgylchedd allanol ysgogol. Mae'r ysgol wedi llwyddo i sefydlu safle diogel, deniadol sy'n ehangu profiadau disgyblion yn dda.

Mae'r pennaeth, gyda chymorth y llywodraethwyr ac arweiniad gan yr awdurdod lleol, yn monitro ac yn rheoli'r gyllideb yn ofalus gan sicrhau bod cysylltiad agos yn bodoli â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

### 6623032 - Ysgol Ysbyty Ifan

Nifer y disgyblion ar y gofrestr	23
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd	0.0
Grŵp PYD	1 (PYD<=8%)

#### Cyfnod Sylfaen

	2013	2014	2015	2016
<b>Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2</b>	2	6	2	6
<b>Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)</b>	100.0	66.7	100.0	66.7
Chwarter meincnod	1	4	1	4
<b>Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
<b>Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	2	6	2	6
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	100.0	66.7	100.0	83.3
Chwarter meincnod	1	4	1	4
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	100.0	33.3	0.0	50.0
Chwarter meincnod	1	3	4	1
<b>Datblygiad mathemategol (MDT)</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	2	6	2	6
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	100.0	66.7	100.0	66.7
Chwarter meincnod	1	4	1	4
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	50.0	16.7	0.0	16.7
Chwarter meincnod	1	4	4	4
<b>Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)</b>				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	2	6	2	6
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	100.0	100.0	100.0	100.0
Chwarter meincnod	1	1	1	1
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	100.0	66.7	100.0	66.7
Chwarter meincnod	1	2	1	3

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'i gilydd.

\* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer yr ysgol hon. Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.  
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	12	12 100%	0 0%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	12	12 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	12	12 100%	0 0%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	12	12 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		97%	3%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	12	12 100%	0 0%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	12	12 100%	0 0%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	12	12 100%	0 0%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	12	12 100%	0 0%	Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	12	12 100%	0 0%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		90%	10%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	12	12 100%	0 0%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	12	11 92%	1 8%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		77%	23%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	12	11 92%	1 8%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	12	8 67%	3 25%	0 0%	0 0%	1	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		62%	34%	3%	1%		
My child likes this school.	12	12 100%	0 0%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		72%	26%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	12	11 92%	1 8%	0 0%	0 0%	0	Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		72%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	12	7 58%	4 33%	0 0%	0 0%	1	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		61%	35%	3%	1%		
Pupils behave well in school.	11	7 64%	3 27%	1 9%	0 0%	0	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		47%	48%	4%	1%		
Teaching is good.	11	6 55%	4 36%	0 0%	0 0%	1	Mae'r addysgu yn dda.
		61%	37%	2%	1%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	12	9 75%	2 17%	0 0%	0 0%	1	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		64%	34%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	12	8 67%	3 25%	1 8%	0 0%	0	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		48%	43%	7%	2%		
Staff treat all children fairly and with respect.	12	12 100%	0 0%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		59%	35%	4%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	12	9 75%	3 25%	0 0%	0 0%	0	Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		59%	38%	3%	0%		
My child is safe at school.	12	8 67%	3 25%	1 8%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		66%	32%	2%	1%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	12	8 67%	3 25%	0 0%	0 0%	1	Mae fy mhentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		55%	39%	5%	2%		
I am kept well informed about my child's progress.	12	7 58%	3 25%	2 17%	0 0%	0	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhentyn.
		48%	41%	9%	2%		



	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	12	9 75%	3 25%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		62%	31%	5%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	12	8 67%	4 33%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		48%	42%	8%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	12	9 75%	2 17%	0 0%	0 0%	1	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		57%	40%	2%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	12	7 58%	4 33%	0 0%	0 0%	1	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		52%	41%	5%	1%		
There is a good range of activities including trips or visits.	12	9 75%	3 25%	0 0%	0 0%	0	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		53%	39%	6%	1%		
The school is well run.	12	7 58%	4 33%	0 0%	0 0%	1	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		61%	34%	4%	2%		

### Atodiad 3

#### Y tîm arolygu

Mr Edward Goronwy Morris	Arolygydd Cofnodol
Mrs Meleri Cray	Arolygydd Lleyg
Miss Llinos Jones	Arolygydd Cymheiriaid
Mr Gwynn Griffith (Pennaeth)	Enwebai

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

### Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

## Rhestr termau – Cynradd

### **Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeiliant 1 i ddeiliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deiliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deiliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deiliant disgwylidig (deiliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### **Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.